***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1387 (Cy.168)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) (Dirymu) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *23 Mai 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *25 Mai 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *15 Mehefin 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru,

a hwythau bellach heb eu bodloni bod difa aelodau gwyllt o rywogaeth y mochyn daear yn angenrheidiol o fewn yr ardal reoli a bennir yng Ngorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) 2011 er mwyn dileu neu leihau'n sylweddol nifer yr achosion o dwbercwlosis mewn anifeiliaid o unrhyw fath yn yr ardal honno, ac

ar ôl ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn unol ag adran 21(3) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 21(2), (4) a (5) ac 86(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### 1 Enwi a chychwyn

(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) (Dirymu) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Mehefin 2012.

### 2 Dirymu

**2.** Dirymir Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) 2011 (**3**).

(**1**) 1981 p.22.
(**2**) Enwir adran 86(1) oherwydd yr ystyr a roddir i "the Minister". Mae swyddogaethau o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru), yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044) ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.
(**3**) O.S. 2011/ 693 (Cy.105).

*John Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

23 Mai 2012

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) 2011.